**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU ADNODDAU CORFFORAETHOL**
**8 CHWEFROR 2024**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd fel cyfarfod hybrid ddydd Iau, 8 Chwefror 2024.

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Richard Jones (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Bill Crease, Alasdair Ibbotson, Allan Marshall, Vicky Perfect, Kevin Rush, Jason Shallcross, Sam Swash, Linda Thomas ac Arnold Woolley

**DIRPRWYON:** Y Cynghorwyr: Ryan McKeown (dros Gina Maddison) a Linda Thew (dros Bernie Attridge)

**HEFYD YN BRESENNOL:** Yr oedd y Cynghorwyr Helen Brown, David Coggins Cogan, David Evans ac Andrew Parkhurst yn bresennol ar gyfer eitem rhif 6 ar y rhaglen (Cyllideb Cronfa'r Cyngor 2024/25) ynghyd â'r Aelodau Cabinet: y Cynghorydd Dave Hughes (Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet Gwasanaethau Stryd a'r Strategaeth Drafnidiaeth Ranbarthol), y Cynghorydd Mared Eastwood (Aelod Cabinet Addysg, y Gymraeg, Diwylliant a Hamdden) a'r Cynghorydd David Healey (Aelod Cabinet Newid Hinsawdd a'r Economi)

**CYFRANWYR:** Y Cynghorydd Ian Roberts (Arweinydd y Cyngor), y Cynghorydd Christine Jones (Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles), y Cynghorydd Paul Johnson (Aelod Cabinet Cyllid, Cynhwysiant a Chymunedau Cryf), y Prif Weithredwr, Prif Swyddog (Llywodraethu), Rheolwr Cyllid Corfforaethol, Rheolwyr Cyllid Strategol, Rheolwr Corfforaethol (Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol) a Rheolwr Corfforaethol (y Rhaglen Gyfalaf ac Asedau)

**HEFYD YN BRESENNOL:** Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd a'r tîm

## 66. DATGAN CYSYLLTIAD

Dim.

## 67. COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 14 Rhagfyr 2023 ac 11 Ionawr 2024, fel y'u cynigiwyd a'u heiliwyd gan y Cynghorwyr Linda Thomas a Bill Crease.

Myfyriodd y Cadeirydd ar ei sylwadau yng nghyfarfod mis Rhagfyr ynglŷn â'r amser a oedd ar gael i bennu'r gyllideb ar gyfer 2024/25 a'r heriau ar gyfer y portffolios.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r ddwy set o gofnodion fel cofnod cywir.

## 68. OLRHAIN CAMAU GWEITHREDU

Cyflwynodd Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd y wybodaeth ddiweddaraf am y camau gweithredu o'r cyfarfodydd blaenorol.

Cafodd yr argymhelliad ei gynnig a'i eilio gan y Cynghorwyr Jason Shallcross a Vicky Perfect.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn nodi'r cynnydd sydd wedi'i wneud.

## 69. RHAGLEN WAITH

Cyflwynodd Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd y Rhaglen Waith bresennol i'w hystyried.

Cafodd yr argymhellion eu cynnig a'u heilio gan y Cynghorwyr Kevin Rush a Bill Crease.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Nodi'r Rhaglen Waith; a

(b) Rhoi awdurdod i Reolwr y Gwasanaethau Democrataidd, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y Pwyllgor, i amrywio'r Rhaglen Waith rhwng cyfarfodydd, yn ôl yr angen.

## 70. AMRYWIO TREFN Y RHAGLEN

Dywedodd y Cadeirydd y bydd yna newid yn nhrefn y rhaglen i ymdrin ag eitem rhif 7 cyn ystyried eitem Cyllideb Cronfa'r Cyngor mewn sesiwn gaeedig.

## 71. MONITRO CYLLIDEB REFENIW 2023/24 (MIS 9) A MONITRO RHAGLEN GYFALAF 2023/24 (MIS 9)

Cyflwynodd y Rheolwyr Cyllid Strategol sefyllfa monitro cyllideb refeniw 2023/24 ym mis 9 ar gyfer Cronfa'r Cyngor a'r Cyfrif Refeniw Tai a'r Rhaglen Gyfalaf, cyn i'r Cabinet ei hystyried.

Monitro'r Gyllideb Refeniw

O ran Cronfa'r Cyngor, yr oedd y sefyllfa ddisgwyliedig ar ddiwedd y flwyddyn yn golygu bod yna ddiffyg gweithredol o £2.502 miliwn a oedd yn newid ffafriol o £0.440 miliwn ers ffigwr y diffyg a adroddwyd ym mis 8. Byddai hyn yn gadael balans o £5.108 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn yn y gronfa wrth gefn at raid ar ôl union effaith y dyfarniadau cyflog a'r dyraniadau a gymeradwywyd yn flaenorol. O ganlyniad i'r moratoriwm parhaus ar wariant ymrwymedig heb fod dan gontract a phroses rheoli swyddi gweigion, yr oedd £1.548 miliwn o wariant gohiriedig a / neu hwyr wedi ei nodi ym mis 9. Crynhowyd y newidiadau i gyllidebau a gymeradwywyd a wnaed ers mis 8 ynghyd ag amrywiannau sylweddol, risgiau yn ystod y flwyddyn / materion sy'n dod i'r amlwg a risgiau

eraill sydd wedi eu holrhain fel y nodir yn yr adroddiad.  Yr oedd sefyllfa cronfeydd wrth gefn heb eu clustnodi yn cynnwys addasiad i falans disgwyliedig Treth y Cyngor a oedd wedi ei orddatgan ym mis 8.

O ran y Cyfrif Refeniw Tai, byddai gwariant a ragwelir o £0.049 miliwn yn fwy na'r gyllideb yn ystod y flwyddyn yn gadael balans terfynol heb ei glustnodi o £3.148 miliwn, a oedd yn uwch na'r canllawiau ar wariant a argymhellwyd.

Parthed cais i ddwyn arian ymlaen ar gyfer Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi, gofynnodd y Cynghorydd Alasdair Ibbotson a allai'r Cyngor gadw ei allu i gyhoeddi is-ddeddfau lleol neu orfodi rhai blaenorol y tu hwnt i'r safonau ar gyfer Gweithdrefnau Arbennig.  Cytunodd swyddogion i geisio cael ymateb gan y portffolio.

Ymatebodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) i gwestiwn ynglŷn â'r cais i ddwyn arian ymlaen yn ei bortffolio, ac awgrymodd y dylid rhoi eglurhad pellach mewn mwy o fanylder mewn sesiwn gaeedig cyn yr eitem nesaf ar y rhaglen.  Cadarnhaodd swyddogion cyllid fod tybiaethau yng nghyfrifiadau'r gyllideb yn seiliedig ar gymeradwyo'r ddau gais am ddwyn arian ymlaen.[1]

Cyfeiriodd y Cadeirydd at risgiau yn ystod y flwyddyn a chwestiynodd ba mor effeithiol yw lobïo Llywodraeth Cymru (LlC) yn barhaus ynglŷn ag ariannu tecach.

Ynglŷn â Lleoliadau y Tu Allan i'r Sir, dywedodd y Cynghorydd Christine Jones fod gwaith a oedd yn cael ei gyflawni i fynd i'r afael â phwysau galw ac amodau'r farchnad yn dechrau cael effaith gadarnhaol dros y tymor hirach.

Rhoddodd y Cynghorydd Paul Johnson sicrwydd bod Prif Swyddogion ac Aelodau Cabinet yn parhau i wneud sylwadau cadarn, a bod Gweithgor Cyllid Tecach yn gwneud cynnydd.

Parthed cyllidebau portffolios, dywedodd y Cynghorydd Bill Crease y dylid adolygu'r dull o ragfynegi ar gyfer meysydd gwasanaeth â gorwariant o flwyddyn i flwyddyn.

<u>Monitro'r Rhaglen Gyfalaf</u>

Y rhaglen ddiwygiedig ar gyfer 2023/24 oedd £92.859 miliwn, gan ystyried yr holl symiau a ddygwyd ymlaen ac arbedion a drosglwyddwyd yn ôl i'r rhaglen.  Yr oedd newidiadau yn ystod y cyfnod wedi digwydd yn bennaf oherwydd cyflwyno ffrydiau cyllid grant ac ailbroffilio'r gyllideb.  Yr oedd y sefyllfa derfynol a ragwelwyd yn £91.049 miliwn, a oedd yn gadael £1.810 miliwn o danwariant, yr

---

[1] Mewn perthynas â'r ymateb gan Swyddogion Cyllid ynglŷn â chyfrifiadau'r gyllideb ar gyfer y ceisiadau i ddwyn arian ymlaen, yr oedd y cyngor ynglŷn â'r cais i ddwyn £0.050 miliwn ymlaen ar gyfer Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi yn gywir. Fodd bynnag, y sefyllfa wirioneddol parthed y cais £0.210 miliwn ar gyfer Llywodraethu oedd nad oedd y sefyllfa derfynol ddisgwyliedig yn cynnwys bod y cais i ddwyn arian ymlaen yn cael ei gymeradwyo ym mis 9. Felly, yn seiliedig ar gymeradwyo hyn, byddai gostyngiad o £0.210 miliwn yn nhanwariant Llywodraethu ym mis 10. Bydd y sefyllfa'n ymwneud â thybiaethau ariannol ar gyfer ceisiadau pellach i ddwyn arian ymlaen yn cael ei hegluro ochr yn ochr â phob cais mewn adroddiadau misol yn y dyfodol.

argymhellwyd y dylid ei ddwyn ymlaen er mwyn cwblhau cynlluniau yn 2024/25 fel y nodwyd. Yr oedd yr adroddiad yn manylu ar arbedion a nodwyd yn ystod y cyfnod a dim dyraniadau ychwanegol. Yr oedd y sefyllfa gyffredinol o ran ariannu cynlluniau a gymeradwywyd yn dangos £2.312 miliwn o arian dros ben, cyn realeiddio derbyniadau cyfalaf ychwanegol a / neu ffynonellau cyllid eraill.

Cafodd yr ail argymhelliad ei gynnig a'i eilio gan y Cadeirydd a'r Cynghorydd Bill Crease.

**PENDERFYNWYD:**

Ar ôl ystyried Adroddiad Monitro Rhaglen Gyfalaf 2023/24 (mis 9), y byddai'r Pwyllgor yn cadarnhau nad oes unrhyw faterion penodol i'w codi gyda'r Cabinet.

## 72. DEDDF LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD AT WYBODAETH) 1985 – YSTYRIED GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

Er mwyn hwyluso trafodaeth lawnach am y trosglwyddiad y gofynnwyd amdano i gronfa wrth gefn y Strategaeth Ddigidol, cynigiodd y Cynghorydd Bill Crease fod y wasg a'r cyhoedd yn cael eu gwahardd, ac eiliwyd hynny gan y Cynghorydd Jason Shallcross.

**PENDERFYNWYD:**

Gwahardd y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod gan yr ystyrir bod yr eitem ganlynol wedi ei heithrio yn rhinwedd paragraff 15 Adran 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).

## 73. MONITRO CYLLIDEB REFENIW 2023/24 (MIS 9)

Er mwyn ymateb i gwestiynau, darparodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) eglurhad ynglŷn â threfniadau ariannu ar gyfer y Strategaeth Ddigidol a'r goblygiadau os na fyddai'r Cabinet yn cymeradwyo'r cais i ddwyn arian ymlaen.

Wrth nodi buddion gwneud gwelliannau i'r wefan, siaradodd y Cynghorydd Alasdair Ibbotson ynglŷn â'r angen i ganolbwyntio ar wasanaethau hanfodol sydd â'r gwerth mwyaf. Ar y sail honno, cynigiodd fod y Pwyllgor yn argymell bod y Cabinet yn gwrthod y cais i ddwyn arian ymlaen, ac aeth rhagddo i awgrymu trosglwyddiad ariannol posibl o elfennau eraill cronfa wrth gefn a glustnodwyd ar gyfer Buddsoddi mewn Newid Sefydliadol er mwyn ategu gwaith ar y Strategaeth Ddigidol.

Mynegwyd pryderon gan y Cynghorydd Linda Thew ynglŷn â phrosesau symleiddio posibl mewn Canolfannau Sir y Fflint yn Cysylltu.

Siaradodd y Cynghorydd Bill Crease o blaid cynnig y Cynghorydd Ibbotson.

Wrth ymateb i bwynt ar gynhyrchu incwm, siaradodd y Prif Swyddog am arbedion awgrymedig o adnoddau swyddi dros dro'r Strategaeth Ddigidol.

Eglurodd y Cynghorydd Ibbotson, er nad oedd ganddo broblem gyda chais gwasanaeth Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi i ddwyn arian ymlaen, yr oedd ganddo bryderon o hyd ynglŷn â chais Llywodraethu.

Cynigiodd y Cadeirydd fod y diwygiad yn nodi y dylid cyflawni asesiad risg ar gyfer unrhyw gais i ddwyn arian ymlaen, yn ôl elfennau o gyllidebau portffolios eraill, er mwyn galluogi'r Cabinet i ystyried pob opsiwn. Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Ibbotson.

**PENDERFYNWYD:**

Ar ôl ystyried Adroddiad Monitro Cyllideb Refeniw 2023/24 (mis 9), y byddai'r Pwyllgor yn argymell:

(a) bod y Cabinet yn gwrthod cais Llywodraethu i ddwyn arian ymlaen;
(b) bod y Cabinet yn comisiynu asesiad risg ar gyfer gwrthod cais Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi i ddwyn arian ymlaen; ac
(c) y dylid cyflawni asesiad risg ar gyfer unrhyw gais i ddwyn arian ymlaen, yn ôl elfennau o gyllidebau portffolios eraill.

## 74. CYLLIDEB CRONFA'R CYNGOR 2024/25

Cyflwynodd Rheolwr Cyllid Corfforaethol adroddiad i ystyried cynigion ychwanegol ar gyfer Gwasanaethau Corfforaethol, Gwasanaeth Asedau a phortffolio Llywodraethu ar gyfer diwallu'r bwlch o £12.946 miliwn a oedd ar ôl yn y gyllideb, yr adroddwyd amdano yn y cyfarfod cynt.

Yn dilyn derbyn Setliad Dros Dro Llywodraeth Leol, a oedd yn un siomedig, rhoddwyd y dasg i bob portffolio adolygu ei sylfaen gostau i nodi ffyrdd posibl o ostwng cyllidebau neu ddileu pwysau costau er mwyn cyfrannu mwy tuag at ddiwallu'r bwlch a oedd ar ôl. Atgoffwyd yr Aelodau o nifer o risgiau parhaus a oedd yn cael eu monitro a allai newid y gofyniad cyllidebol ychwanegol ymhellach. Byddai sylwadau gan bwyllgorau Trosolwg a Chraffu ynglŷn â'u meysydd penodol yn cael eu coladu ar gyfer adroddiadau terfynol pennu'r gyllideb ar gyfer y Cabinet a'r Cyngor Sir ar 20 Chwefror.

Tabl 1 – gostyngiadau cyllidebol y Gwasanaethau Corfforaethol

Rhannodd y Cadeirydd ei bryderon ynglŷn â chanlyniadau'r opsiwn yn y dyfodol ar gyfer rhaglen Hyfforddeion Sir y Fflint. Darparodd y Rheolwr Corfforaethol (Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol) gyd-destun drwy ddweud y byddai'r cynnig i ostwng y garfan ar gyfer 2024/25 yn cael effaith fach iawn, oherwydd byddai'r hyfforddeion hynny wedi derbyn llai o adnoddau yn ystod y cyfnod. Bu hyn o gymorth i'r Pwyllgor ystyried yr argymhellion.

Parthed yr adolygiad o ffioedd a thaliadau, dywedwyd wrth y Cadeirydd bod y swm yn berthnasol i 2024, ac yr oedd yn adlewyrchu amcangyfrif o ffigwr rhan o'r flwyddyn o fis Hydref 2024.

Rhoddwyd eglurhad i'r Cynghorydd Andrew Parkhurst ynglŷn â'r cyfanswm amcangyfrifedig ar gyfer cyllideb gymorth Undebau Llafur. Parthed gofynion statudol, dywedodd y Rheolwr Corfforaethol (Adnoddau Dynol a

Datblygu Sefydliadol), er bod y Cyngor bob amser wedi cydnabod Undebau Llafur, fel cyflogwr, byddai'n cadarnhau'r sefyllfa statudol bendant ac yn ymateb ar wahân.

Tabl 2 – gostyngiadau cyllidebol y Gwasanaeth Asedau

Yn dilyn eglurhad ynglŷn â'r gostyngiad cyllidebol ar gyfer Polisi a nodwyd yn yr adroddiad, dywedodd y Cadeirydd y gallai gostyngiadau a wnaed ar gyfer cyllid trydydd sector, o bosibl, roi pwysau ar wasanaethau'r Cyngor. Cydnabu'r Prif Weithredwr a'r Cadeirydd gyfraniadau cadarnhaol y trydydd sector tuag at ddarparu gwasanaethau'r Cyngor.

Tabl 3 – gostyngiadau cyllidebol Llywodraethu

Wrth ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Alasdair Ibbotson, darparodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) wybodaeth am yr effaith ar gyfathrebu gyda'r cyhoedd a achosid gan opsiwn effeithlonrwydd meddalwedd GovDelivery pe na bai'r cais i ddwyn arian ymlaen ar gyfer y Strategaeth Ddigidol yn cael ei gymeradwyo gan y Cabinet.

Yn dilyn trafodaeth, cafodd yr argymhelliad ar gyfer y Gwasanaeth Asedau ei gynnig a'i eilio gan y Cadeirydd a'r Cynghorydd Bill Crease. Cafodd yr argymhellion ar gyfer y Gwasanaethau Corfforaethol a Llywodraethu, fel y'u diwygiwyd, eu cynnig a'u heilio gan y Cynghorydd Ibbotson a'r Cadeirydd.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Pwyllgor yn derbyn opsiynau'r Gwasanaeth Asedau i ostwng cyllidebau; ac

(b) Ar ôl ystyried yr opsiynau i ostwng cyllidebau yn y Gwasanaethau Corfforaethol a Llywodraethu, bod y Pwyllgor yn mynegi amheuon ac anfodlonrwydd am y tro wrth dderbyn y gostyngiadau arfaethedig ar gyfer Hyfforddeion Sir y Fflint a Sir y Fflint yn Cysylltu (gostyngiad yn y gyllideb), ond yn mynegi parodrwydd am y tro i dderbyn cael gwared â Meddalwedd GovDelivery Granicus, hyd yn oed os na chymeradwyir y ffigwr i'w ddwyn ymlaen ar gyfer cronfa wrth gefn y Strategaeth Ddigidol o'r eitem flaenorol, a hyn hyd nes ystyrir effeithiau a risgiau pob un.

## 75. AELODAU O'R WASG YN BRESENNOL

Dim.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10am a daeth i ben am 12pm)

…………………………
**Y Cadeirydd**